Y Clerc Hanfodol

Cyflwyniad i rôl a gwaith cynghorau cymuned a thref

Llyfryn Grŵp Cynghori Cenedlaethol
ar Hyfforddiant, Cymru

Society of Local Council Clerks
Professional Supportive Innovative

ar y cyd â

UNIVERSITY OF GLOUCESTERSHIRE
at CHELTENHAM *and* GLOUCESTER

Ariannwyd y llyfryn hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n un o sawl prosiect a gymeradwywyd gan y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant er mwyn cefnogi clercod newydd, a reolir gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Ysgrifennwyd y cynnwys gan Brifysgol Swydd Gaerloyw, gyda chymorth llawer o gydweithwyr, ac fe argraffwyd gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Beth am fanteisio ar yr hyfforddiant, y cyngor a'r rhwydweithiau a ddarperir? Nid oes unrhyw gwestiynau sy'n rhai hurt – os oes gennych unrhyw amheuon, holwch. Cyn bo hir, byddwch yn gallu rhannu gyda phobl eraill ac ateb y cwestiynau syml hynny!

I gloi – dywedodd Conffiwsiws: *"Mae bod yn hoff o ddysgu yn agos at ddoethineb."*

Y Clerc Hanfodol

Lle bo clercod cynghorau cymuned a thref yn cyfarfod, maent yn rhwydweithio, golygfa mewn Seminar Haf, Prifysgol Swydd Gaerloyw

Rhagair

Symudais i dde Cymru ym 1999 a blwyddyn yn ddiweddarach gwelais swydd Clerc Cyngor Tref Cas-gwent yn cael ei hysbysebu'n lleol. Gyda phlant yn yr ysgol, roedd yn ymddangos yn swydd ran-amser ddelfrydol, gan fy ngalluogi i gydbwyso gwaith a bywyd teuluol. Roedd gennyf 16 blynedd o brofiad o lywodraeth leol Llundain cyn cymryd seibiant gyrfa, ond ychydig iawn o wybodaeth am waith cynghorau cymuned, plwyf neu dref. Paratois ar gyfer fy nghyfweliad gyda Chyngor Tref Cas-gwent trwy ddarllen cofnodion blaenorol a dod o hyd i gyfeiriad at gwrs dysgu o bell newydd ar gyfer clercod cynghorau "Gweithio dros eich Cyngor" (rhagredegydd "Cydweithio â'ch Cyngor") a luniwyd gan Brifysgol Swydd Gaerloyw. Cefais y pecyn hyfforddiant newydd yn gyflym fel "aelod ymddeoledig" o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol!

Nid oeddwn yn siŵr beth i'w ddisgwyl. Roedd blynyddoedd wedi mynd heibio ers i mi wneud hyfforddiant ffurfiol ac roedd meddwl am astudio yn codi ofn arnaf. Roedd fy ofnau'n ddi-sail. Roedd y cwrs wedi'i gynllunio'n dda a'i ysgrifennu mewn arddull hawdd. Prysurais drwy'r cwrs a chefais fy mhenodi fel Clerc Cyngor Tref Cas-gwent. Penodwyd mentor i mi a chefais fy nghyflwyno i gangen Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn Swydd Gaerloyw. Yna, darganfûm fod hyfforddiant pellach ar gael gan Brifysgol Swydd Gaerloyw ac unwaith eto, gydag ehofnder, mi gofrestrais ar y cwrs Polisi Lleol. Hen hanes yw'r gweddill… Mae'r cymorth ardderchog a'r cyfleoedd rhwydweithio a ddarparwyd gan y Brifysgol a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol wedi fy ngalluogi i fynd o nerth i nerth.

Heddiw, mae gennym sawl cangen o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yng Nghymru; mae gennym ein Swyddog Cydlynu ein hunain, Ymgynghorydd arbenigol ar gyfer Cymru a Swyddog Hyfforddi Rhanbarthol. Mae gennym fersiwn Gymraeg o "Cydweithio â'ch Cyngor" a cymhwyster "CiLCA" Cymru ar gyfer Clercod, ynghyd â'r cyfle i astudio gyda'n cydweithwyr o Loegr ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw. Fel clerc newydd, mae gennych y canllaw rhagarweiniol hwn hefyd, sef "Y Clerc Hanfodol". Gobeithiaf y byddwch yn ei fwynhau ac y bydd yn fan cychwyn defnyddiol. Efallai y bydd yn eich ysbrydoli i ddilyn hyfforddiant pellach - mae ein rôl yn un heriol sy'n newid yn gyson, a gall fod yn arbennig o foddhaus. Pob lwc!

Sandra Bushell PILCM
Swyddog Cymorth Sirol
Ionawr 2009

Cydnabyddiaethau

- Mae Elisabeth Skinner (Prif Ddarlithydd, Adran y Gwyddorau Naturiol a Chymdeithasol, Prifysgol Swydd Gaerloyw) wedi chwarae rhan bwysig wrth ysgrifennu'r llyfryn hwn. Mae'r chwe phwnc craidd wedi'u seilio ar gwrs Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a luniwyd gan Elisabeth a'i chydweithwyr yn y Brifysgol. Mae'n bosibl mai'r cwrs hwn, sef *Cydweithio â'ch Cyngor*, fydd eich cam nesaf wedi i chi ddarllen y llyfryn hwn ac ymgartrefu yn eich swydd.
- Darparodd Joy Sheppard a Chymdeithas Cynghorau Lleol Essex syniadau ychwanegol o'u pecyn croeso ar gyfer clercod newydd.
- Cyfrannodd clercod a thîm ymgynghorol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ddeunyddiau a darparodd Sandra Bushell, Swyddog Cymorth Sirol De Ddwyrain Cymru, y safbwynt Cymreig.
- Cefnogwyd y canllaw gwreiddiol gan Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol Lloegr. Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid ar gyfer y fersiwn Gymraeg, sy'n rhan o brosiect i gefnogi clercod newydd wrth iddynt ddechrau yn y swydd.

Elisabeth Skinner (Prifysgol Swydd Gaerloyw) gyda'i chydweithiwr sydd wedi ymddeol, Laurie Howes, wrth ennill cwpan mentora Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

Cynnwys

1 Cyflwyno'r 'Clerc Hanfodol' 5/6

2 Rolau a Chyfrifoldebau 7/11
Y cyngor
Y clerc
Cynghorwyr
Y cadeirydd
Gweithio gyda'ch cyflogwr
Rhyngweithio gyda'r wasg a'r cyhoedd
Cydweithio ag awdurdodau eraill

3 Y Gyfraith 11/14
Pwerau (dewisol)
Dyletswyddau (gorfodol)
Dirprwyo pwerau
Clerc fel ymgynghorydd cyfreithiol

4 Gweithdrefnau 15/19
Gwneud penderfyniadau cyfreithlon
Agendâu
Cyfarfodydd
Rheolau Sefydlog
Cofnodion
Pwyllgorau
Cynghorwyr
Y fframwaith moesegol

5 Cyllid 20/23
Arian cyhoeddus
Cyllidebau a pholisïau
Cadw cyfrifon
Diwedd y flwyddyn ac archwiliadau
Gweithdrefnau (neu reoliadau) ariannol

6 Cynllunio 24/26
Cynllunio
Rheoli datblygu
Gwneud arsylwadau
Rheoli cynllunio
Y cynllun datblygu
Barn y gymuned

7 Gweithredu Cymunedol 27/28
Bod yn weithredol
Gwrando
Cynghorau o Ansawdd

8 Ble nesaf? 29/32
Ffynonellau cyngor
Hyfforddiant
Ffynonellau gwybodaeth
Symud ymlaen yn raddol

9 Cyngor terfynol gan glercod 33/34
Gwybodaeth leol
Awgrymiadau ar gyfer y dyddiau cynnar

10 Mynegai

1 CYFLWYNO'R 'CLERC HANFODOL'

Mae clerc da yn ased hanfodol i bob cyngor. Dros amser, byddwch yn darganfod yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfrannu at eich gwaith fel clerc. Byddwch yn hel gwybodaeth ac yn datblygu ystod o sgiliau o werth i'ch cyngor a'i gymuned leol. Blas yn unig yw'r llyfryn hwn, sef cyflwyniad byr i waith y cyngor gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau, y gyfraith, gweithdrefnau, cyllid, cynllunio a gweithredu cymunedol.

Gofynnwyd i'r clercod yn e-grwpiau Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol fyfyrio ar eu dyddiau cynnar yn y rôl er mwyn rhoi blas ar y gwaith ac unrhyw wybodaeth ychwanegol yr oeddent o'r farn y byddai gwir angen i chi wybod amdani. Felly, mewn blychau trwy gydol y llyfryn ac yn Adran 9, mae proffesiwn y clercod yn siarad yn uniongyrchol gyda chi.

Er y bydd y llyfryn hwn yn rhoi arweiniad i chi, mae'n debyg y byddwch yn gofyn mwy o gwestiynau am eich gwaith wrth i chi symud ymlaen. Mae'r llyfryn hwn yn eich rhoi ar y trywydd iawn wrth i chi chwilio am atebion.

Nid ydych ar eich pen eich hun fel clerc newydd. Mae sawl sefydliad sy'n gyfrifol am eich helpu. Dylai'ch cyngor fod yn aelod o Un Llais Cymru er mwyn cael budd o'i gyngor a'i wybodaeth ddiweddaraf. Un Llais Cymru yw'r man galw cyntaf ar gyfer cyngor ar faterion sydd o bryder i'r cyngor fel corff corfforaethol. Cysylltwch ag Un Llais Cymru trwy eu gwefan www.unllaiscymru.org.uk neu ffoniwch, 01269 595400.

Mae Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn cynrychioli clercod a swyddogion eraill. Mae'n cynnig cymorth trwy ganghennau sirol a fforymau e-bost; ac mae'n darparu gwybodaeth a chyngor mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan gynnwys *Clerks' Manual* a chylchgrawn *The Clerk*, gwefan (www.slcc.co.uk) a thîm o ymgynghorwyr arbenigol a rhanbarthol. Bydd cyd-glercod yng Nghymdeithas Clercod Llywodraeth Leol wrth law i'ch helpu o'r cychwyn cyntaf. Bydd eich swyddog cymorth sirol (SCS) yn cysylltu â chi (neu gallwch gysylltu ag ef/hi). Gallwch siarad yn gyfrinachol gyda'ch SCS am eich rôl a gwaith clerc ar unrhyw adeg. Eich SCS fydd eich cysylltbwynt cyntaf a bydd yn eich helpu i ganfod pwy yw'r ffynhonnell orau o wybodaeth, cymorth neu gefnogaeth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y llyfryn hwn. Mae'n werth cofio, wrth i chi ddarllen am y gyfraith, gweithdrefnau, cynllunio a rheoli ariannol, bod iechyd a lles y gymuned leol wrth wraidd popeth a wnewch. Rydych yn gwasanaethu fel swyddog y cyngor, ond mae'r cyngor yn gwasanaethu'r gymuned, gan weithredu er lles pawb sy'n byw ac yn gweithio yn y fro. Eich gwaith chi yw cynnig cyngor a chymorth i'r cyngor wrth iddo wneud ei waith. Efallai y bydd hyn yn ddechrau perthynas barhaol.

Gan Swyddog Mentora Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

Croeso i'r swydd hynod foddhaus o fod yn glerc i gyngor lleol! Fe welwch, wrth i chi dyfu yn eich swydd a dysgu sut i fynd i'r afael â materion, bod y gwaith yn dod yn fwyfwy diddorol. Mae'n wir y byddwch yn wynebu heriau ac adegau rhwystredig, ond ni fyddwch yn diflasu. Gobeithiwn y bydd yr awgrymiadau canlynol yn gychwyn da i chi!

2 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Y cyngor

Rydych wedi ymuno â thîm sy'n gyfrifol am gynrychioli buddiannau'r gymuned. Mae'r cadeirydd, y cynghorwyr, y clerc a'r staff eraill yn aelodau unigol o dîm y cyngor, y mae pob un yn cael ei werthfawrogi'n gyfartal ac yn gweithio gyda'i gilydd fel uned.

Y clerc

Fel clerc, rydych yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r tîm. Rydych yn swyddog proffesiynol a gyflogir gan y cyngor i ddarparu cymorth gweinyddol a chyngor proffesiynol. Rydych yn cefnogi'r cyngor cyn, yn ystod ac ar ôl cyfarfodydd, gan baratoi cynghorwyr i wneud penderfyniadau ac i roi eu penderfyniadau ar waith. Fel ei brif swyddog, rydych yn amddiffyn y cyngor fel corff corfforaethol. Mae llawer o glercod yn mwynhau eu gwaith gan ei fod yn amrywio'n fawr iawn. Gwiriwch eich swydd ddisgrifiad, ond gallai'ch gwaith gynnwys:

- ysgrifennu llythyrau, adroddiadau, memos;
- trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau;
- cynghori ar wneud penderfyniadau a pholisïau cyfreithlon;
- ymchwilio i bynciau sydd o bwys i'r cyngor;
- cael y wybodaeth ddiweddaraf;
- rheoli prosiectau, safleoedd, cyfleusterau a chyllid;
- rheoli cofnodion, timau a staff;
- cyd-drafod, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus;
- prynu offer.

Y clerc yw'r 'swyddog priodol' fel arfer. Mae hwn yn derm cyfreithiol sy'n golygu'r swyddog priodol ar gyfer swyddogaeth arbennig. Rhaid i'r cyngor benodi'r swyddogion sydd eu hangen arno i gyflawni ei ddyletswyddau. Rhaid i'r cyngor benodi Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) hefyd i reoli ei gyllid. Fel arfer, ond nid bob tro, yr un unigolyn yw'r SAC a'r clerc. Os nad ydych yn SAC, fel clerc bydd angen gorolwg arnoch o gyllid y cyngor.

Cynghorwyr

Aelodau eraill y tîm yw'r cynghorwyr a'r cadeirydd etholedig. Bydd pob unigolyn yn dehongli ei rôl mewn ffordd wahanol, a bydd angen i chi ddod i adnabod pob un ohonynt. Yn gyffredinol, mae cynghorwyr yn cyfrannu at waith y cyngor cyfan trwy:

awgrymu syniadau;

- cymryd rhan mewn trafodaeth adeiladol;
- ymateb i farn ac anghenion y gymuned;
- cynrychioli eu hetholwyr;
- ymddwyn mewn modd moesegol a bod yn onest ynghylch unrhyw fuddiannau;
- rhoi sylwadau am gynigion er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau;
- pleidleisio – er mwyn galluogi'r cyngor i wneud penderfyniadau.

Ni all cynghorydd unigol (gan gynnwys y cadeirydd) wneud penderfyniad ar ran y cyngor. Mae'n helpu i gofio eich bod yn atebol i'r cyngor yn ei gyfanrwydd, ac nid i gynghorydd unigol, gan gynnwys y cadeirydd

Y cadeirydd

Eich perthynas waith bwysicaf yw eich perthynas gyda'r cadeirydd. Rydych yn bartneriaid wrth lywio'r cyngor. Dylech allu siarad gyda'ch gilydd yn agored, gan gydnabod cryfderau eich gilydd a deall eich rolau.

Er enghraifft, mae'n arfer gorau i drafod yr agenda gyda'r cadeirydd cyn ei hanfon at gynghorwyr. Gallwch gytuno ar ei fformat gyda'ch gilydd a sicrhau na fydd yn arwain at unrhyw benderfyniadau anghyfreithlon. Ond sylwch, rhaid i'r clerc lofnodi'r agenda ac felly gallwch wneud y penderfyniad terfynol ar ei harddull a'i chynnwys.

Rhaid i'r cyngor gael cadeirydd, sy'n gyfrifol am sicrhau y gwneir penderfyniadau priodol yng nghyfarfodydd y cyngor. Sylwch mai ethol cadeirydd a ddylai'r eitem gyntaf fod ar agenda Cyfarfodydd Blynyddol y Cyngor a gynhelir ym mis Mai bob blwyddyn. Mae hyn hefyd yn berthnasol mewn unrhyw gyfarfodydd lle nad yw'r cadeirydd na'r is-gadeirydd yn bresennol. Daw'r eitem hon cyn yr ymddiheuriadau.

Mae'r cadeirydd yn rheoli'r drafodaeth, yn ei chrynhoi ac yn defnyddio'r agenda er mwyn helpu'r cyfarfodydd i redeg yn rhwydd ac ar amser. Er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud, mae gan y cadeirydd ail bleidlais, sy'n cael ei galw'n bleidlais fwrw, os yw'r bleidlais yn gyfartal. Gall y cadeirydd ddewis p'un a i ddefnyddio'r bleidlais fwrw ai peidio, ond rhaid defnyddio'r bleidlais fwrw wrth ethol cadeirydd. Mae gan rai cynghorau arweinydd yn ogystal â'r cadeirydd; yr arweinydd yw pennaeth y brif blaid wleidyddol sy'n cael ei chynrychioli ar y cyngor ac ni chaiff ei benodi/phenodi yng nghyfarfod y cyngor. Nid oes gan yr arweinydd fwy o gyfrifoldeb nag unrhyw gynghorydd arall.

Yn aml, y cadeirydd yw wyneb cyhoeddus y cyngor, gan gynrychioli'r cyngor mewn cymhwyster dinesig a siarad ar ran y cyngor o bryd i'w gilydd.

Esbonnir cyngor i gadeiryddion yn y llyfryn *Standing Orders and Chairmanship* a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol ac sydd ar gael gan Un Llais Cymru. Mae hyfforddiant ar gael i gadeiryddion trwy Un Llais Cymru gan ddefnyddio pecyn hyfforddiant cenedlaethol mewn sgiliau cadeiryddiaeth.

Gweithio gyda'ch cyflogwr

Rydych yn cael eich cyflogi gan y cyngor fel corff ac nid gan bob cynghorydd unigol. Fodd bynnag, fel clerc, chi yw rheolwr atebol unrhyw aelod staff arall a gyflogir gan y cyngor. Yn y pen draw, bydd angen i chi ddarganfod sut mae cyfraith cyflogaeth yn effeithio ar eich cyngor.

- Mae gan staff yr hawl i ddisgwyl i'r cyngor drafod materion sy'n ymwneud â chyflogaeth mewn sesiwn gyfrinachol, yn dilyn penderfyniad i wahardd y wasg a'r cyhoedd.
- Dylai cyfrifoldebau'r holl weithwyr gael eu nodi'n glir mewn swydd ddisgrifiad sydd ynghlwm wrth gontract cyflogaeth priodol.

- Dylai contract y clerc sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'r cytundeb ar 'amodau a thelerau' a luniwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol, Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae contract a chyflog sy'n unol â'r lleiafswm cyflog ar y lleiaf yn ofynion cyfreithiol ar gyfer pob gweithiwr.
- Rhaid bod gweithdrefnau disgyblu a chwyno ffurfiol gan y cyngor rhag ofn yr aiff unrhyw beth o chwith rhwng y staff a'r cyflogwr. Mae contractau a gweithdrefnau enghreifftiol ar gael gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac Un Llais Cymru.
- Mae'r gyfraith yn eich amddiffyn rhag gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu a rhag bygythiadau i'ch iechyd a'ch diogelwch.
- Os bydd problemau'n codi gyda staff, bydd Un Llais Cymru'n cynghori'r cyngor a thîm ymgynghorol Cymdeithas Clercod Llywodraeth Lleol yn cynghori'r clerc, ar yr amod bod y ddwy aelodaeth ar waith.
- Mae'n arfer da i ofyn am gyfarfod adolygu ar ôl chwe mis ac yna bob blwyddyn wedi hynny. Mae hwn yn gyfle i chi fyfyrio ar ddisgwyliadau (eich disgwyliadau chi a disgwyliadau'r cyngor), eich cyflawniadau, eich anghenion hyfforddiant a newidiadau i amodau gwaith. Dylai'r cyngor fod yn gwbl ymroddedig i'ch hyfforddi a'ch datblygu.
- Y cyngor yw eich rheolwr llinell, felly gall benodi dau neu dri aelod i ymgymryd â'r arfarniad hwn.

Rydych o werth arbennig i'r tîm gan mai chi yw'r swyddog proffesiynol, sef gwasanaethydd annibynnol a gwrthrychol y cyngor sy'n gweithredu'n unol â chyfarwyddiadau'r cyngor cyfan yn unig. Mae hyn yn golygu y gall y cyngor ddirprwyo'r pwerau i chi wneud penderfyniadau ar ei ran, yn enwedig mewn sefyllfa frys. Cofiwch nad ydych yn gweithredu'n bersonol, ond fel cynrychiolydd o'r cyngor fel corff corfforaethol.

Rhyngweithio gyda'r wasg a'r cyhoedd

Rydych yn aml yn gyfrifol am y modd y caiff y cyngor ei gyflwyno i'r gymuned ehangach, ac felly mae'r modd yr ydych yn mynegi eich hun yn gyhoeddus yn dueddol o adlewyrchu ar y cyngor. Mae o gymorth os yw'r holl gyfathrebiadau'n gall ac wedi'u llunio'n dda. Bydd technoleg gwybodaeth (TG) yn helpu'r cyngor i gyflwyno darlun cyfoes.

Os ydych yn siarad ar ran y cyngor, bydd yn haws o lawer i chi gadw at y ffeithiau a mynegi barn y cyngor yn unig heb drafod eich barn eich hun. Ymhen hir a hwyr, gallwch feithrin perthynas dda â'r cyfryngau lleol – radio, papurau newydd a theledu – fel y byddant yn helpu i hyrwyddo'r cyngor. Os ydych yn cael trafferth ymateb i gwestiynau gan y wasg, ceisiwch beidio â dweud "dim i'w ddweud"; mae'n well dweud y byddwch yn ymateb yn hwyrach pan fydd gennych fwy o wybodaeth.

Mae o fudd i'r gymuned os ydych chi (neu'ch staff) ar gael i'r cyhoedd. Os ydych yn gweithio mewn

swyddfa, gallwch roi oriau agor clir. Os ydych yn gweithio gartref, yna ystyriwch gynnal cymhorthfa reolaidd mewn man cyhoeddus a chael peiriant ateb, gwefan a system e-bost.

Cydweithio ag awdurdodau eraill

Byddwch yn gweithio ar y cyd â sawl sefydliad arall, ond yn enwedig awdurdodau eraill mewn llywodraeth leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r 735 o gynghorau cymuned neu dref yn ffurfio haen y llywodraeth leol sydd agosaf at y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Yn bellach i ffwrdd fel arfer, mae 22 awdurdod lleol yng Nghymru, sef cynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a dinasoedd. Mae'r haenau hyn o lywodraeth leol yn annibynnol ar ei gilydd, er eu bod yn ceisio gweithio ar y cyd. Mae gan brif awdurdodau sawl gwasanaeth y mae'n rhaid iddynt eu darparu yn ôl y gyfraith (fel ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol). Mae gan gynghorau cymuned fwy o ryddid i ddewis pa wasanaethau (os o gwbl) y maent am eu darparu. Bydd eich rhwydwaith lleol yn ei gwneud yn glir i chi sut mae'r prif awdurdod neu awdurdodau a'r llywodraeth ranbarthol wedi'u trefnu yn eich ardal chi.

Yr hyn a ddywedodd clercod

Mae llawer o glercod yn synnu bod disgwyl iddynt wneud llawer mwy na thasgau syml fel paratoi agendâu a chymryd cofnodion.

Ni allwn bwysleisio'n ddigon bwysigrwydd contract cyflogaeth ysgrifenedig ar gyfer clercod amser llawn a rhan-amser. Rhaid i'ch contract nodi eich dyletswyddau yn ogystal â rhestr amodau eich cyflogi. Mae'r rhain yn cynnwys eich cyflog cychwynnol, pensiwn neu arian rhodd, darpariaethau tâl salwch, gwyliau blynyddol, gweithdrefnau disgyblu a chwyno a'r broses apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n effeithio ar eich gwaith. Os nad oes gennych gontract, gallwch gael copi o gontract enghreifftiol gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol neu Un Llais Cymru. Cwblhewch gopi o'r contract hwn a gofynnwch i'ch cyngor gytuno ag ef a'i gymeradwyo neu ei ddiwygio trwy gytundeb.

Fe ddewch o hyd i lawer o gyngor cyhoeddedig ar ddyletswyddau clerc. Y peth pwysicaf i chi ei gofio yw bod rhaid i chi sicrhau bod y cyngor (ac nid cynghorwyr unigol) yn gwneud y penderfyniadau hynny y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud yn unig. (Nawr, byddwch yn dechrau deall pwysigrwydd hyfforddiant a ffynonellau gwybodaeth eraill!)

3 Y GYFRAITH

I

Enghraifft o ddefnyddio pŵer cyfreithiol i blannu perllan gymunedol

Pwerau (dewisol)

Mae cynghorau cymuned yn gaeth i statud. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu sefydlu a'u rheoli gan Ddeddfau Seneddol. Mae gwybodaeth am y gyfraith yn grymuso'r cyngor. Mae'r gyfraith yn pennu'r hyn y mae'n *rhaid* i'r cyngor ei wneud (ei ddyletswyddau), yr hyn y gall *ddewis* ei wneud (ei bwerau) a'r hyn *na all* ei wneud.

Gall cynghorau cymuned ddewis o ystod eang o swyddogaethau neu bwerau. Felly, er enghraifft, gall cyngor cymuned wario ei arian ar:

Cloc cyhoeddus
Bylbiau ar gyfer ochr y ffordd
Llyn rhwyfo
Neuadd gymunedol
Band pentref
Biniau sbwriel
Pwll nofio
Arafu traffig
Bws cymunedol
Cofeb ryfel
Arhosfan bysiau
Hyfforddiant chwaraeon
Theatr
Teledu Cylch Cyfyng (TCC)
Cae criced
Gŵyl
Gwersyllfa
Llwybrau troed
Rheseli beiciau
Mynwentydd neu gladdfeydd
Llwybrau troed
Marchnadoedd
Canolfan gelf
Amgueddfa
Lawnt y pentref
Rhandiroedd

Teledu Cylch Cyfyng (TCC) Cae criced Gŵyl Gwersyllfa Llwybrau troed Rheseli beiciau Mynwentydd neu gladdfeydd Llwybrau troed Marchnadoedd Canolfan gelf Amgueddfa Lawnt y pentref Rhandiroedd

Ymhen amser, byddwch yn canfod pa ddeddf sy'n rhoi'r pŵer i'r cyngor cymuned weithredu ar y rhain a llawer o faterion eraill. Edrychwch ar *Canllaw y Cynghorydd Da*, sy'n gorffen gyda thabl o lawer o bwerau. Cofiwch y gall cynghorau cymuned wneud yr hyn y rhoddwyd pŵer penodol iddynt ei wneud gan statud yn unig.

Yn bwysicach fyth, mae gan gynghorau cymuned y pŵer i godi arian trwy'r dreth gyngor (yr archebiant) i wario ar eu gweithgareddau. Gall cyngor godi cymaint o arian ag sydd ei angen arno trwy'r archebiant, ond dylai ystyried yr effaith ar y dreth gyngor a delir gan y bobl sy'n byw yn y gymuned.

Mae deddfwriaeth benodol a adnabyddir fel adran 137 (s137) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r cyngor i wario arian ar unrhyw beth sydd o fudd i rai o'i drigolion neu ei holl

drigolion (neu'r ardal i gyd neu ran ohoni) os nad oes unrhyw bŵer penodol arall ar gyfer y gweithgaredd hwnnw. Er enghraifft, nid oes statud sy'n rhoi'r pŵer i gyngor cymuned wario ar faterion iechyd, ond gall y cyngor ariannu ciropodydd neu ambiwlans awyr, er enghraifft, gan ddefnyddio a137. Rhaid i'r arian sy'n cael ei wario dan a137 fod yn gymesur â'r budd a geir.

Mae cyfyngiad i faint o arian y gall y cyngor ei wario dan y pŵer hwn mewn unrhyw flwyddyn. Mae'r cyfyngiad hwn yn golygu bod rhaid i chi gadw cofnod o'r holl wariant dan a137, gan ddefnyddio colofn yn eich cyfrifon at y diben hwn fel arfer. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ysgrifennu at bob cyngor cymuned bob blwyddyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y terfyn a137. Os ydych yn ansicr, gofynnwch i'ch SCS neu'ch Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru roi gwybod i chi am y terfyn cyfredol.

Mae a111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ddefnyddiol iawn hefyd. Mae'n caniatáu i'r cyngor ymgymryd â gweithgareddau sy'n ei helpu i gyflawni dyletswyddau penodol eraill. Nid yw'r gwariant a ganiateir dan y pŵer hwn wedi'i gyfyngu. Felly, mae a111 yn rhoi'r pŵer i'r cyngor wario ar gyfeirlyfrau, cynadleddau a hyfforddiant.

Dyletswyddau (gorfodol)

Mae gan y cyngor rai dyletswyddau; mae'r rhain yn nodi'r hyn y mae'n rhaid iddo ei wneud, ac nid oes ganddo ddewis. Mae rhai dyletswyddau'n gysylltiedig â'r gwasanaethau y gallai'r cyngor eu darparu. Rhaid i'r cyngor *ystyried* darparu rhandiroedd os yw o leiaf chwe etholwr yn gofyn amdanynt. Rhaid iddo fod â rheswm da iawn am wrthod cais yr etholwyr! Yn yr un modd, rhaid iddo ystyried mabwysiadu mynwent a gaewyd gan Gyngor Plwyf Eglwysig os yw'n gofyn iddo wneud hynny; *gall* y cyngor cymuned wrthod ac yn yr achosion hyn rhaid i'r prif awdurdod ei derbyn.

Hefyd, mae gan y cyngor ddyletswydd i ystyried effaith unrhyw rai o'i weithgareddau ar drosedd ac anhrefn. Rhaid iddo gydymffurfio â statudau a luniwyd i amddiffyn pobl unigol, fel deddfwriaeth cyfle cyfartal, cyfraith cyflogaeth a'r rheolau sy'n ymwneud â diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gyfrifoldebau'r cyngor yn rheolau gweithdrefnol neu ariannol, fel y canlynol. Fe ddewch i wybod y rheolau ymhen amser.

Rhaid i'r cyngor gynnal Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Ambell waith, ar ôl etholiadau, mae'n bosibl na chaiff Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ei gynnal ym mis Mai. Bydd cysylltiadau lleol yn eich helpu i wirio hyn.

- Rhaid i'r cyngor ethol cadeirydd. Cofiwch mai hon yw'r eitem gyntaf ar agenda cyfarfod blynyddol y cyngor. Cynghorir y cyngor i benodi is-gadeirydd, ond nid yw hwn yn ofyniad cyfreithiol.
- Ni ellir cynnal cyfarfodydd mewn eiddo trwyddedig, oni bai nad oes unrhyw leoliad addas arall ar gael.
- Rhaid arddangos hysbysiad cyhoeddus yn nodi amser a lleoliad cyfarfod o leiaf tri diwrnod ymlaen llaw ac anfon gwŷs at aelodau'r cyngor.

- Rhaid i o leiaf traean o'r aelodau (ond nid llai na thri) fod yn bresennol er mwyn cael cworwm ar gyfer trafod busnes y cyngor.
- Cynhelir pleidleisiau trwy godi dwylo, gydag eithriadau prin. Gall cynghorwyr ofyn am i'r pleidleisiau gael eu cofnodi.
- Mae gan y cyngor ddyletswydd i gadw cofnod o'i gyfarfodydd, sef y cofnodion.
- Rhaid i'r cyngor benodi archwilydd allanol annibynnol a chymwys.
- Rhaid i o leiaf dau gynghorydd lofnodi pob siec.

Dirprwyo pwerau (neu ddyletswyddau)

Mae'r cyngor fel corff yn gyfrifol am ei holl benderfyniadau, ond *gall* ganiatáu i barti arall wneud penderfyniad ar ei ran. Mae hwn yn fater cyfreithiol a gynhwyswyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 (adran 101). Gellir rhoi'r pŵer i bwyllgor, is-bwyllgor, swyddog neu awdurdod lleol arall i wneud penderfyniad ar ran y cyngor. Ar y llaw arall, *ni all* cynghorydd unigol, y cadeirydd, gweithgor na grŵp o gynghorwyr wneud hynny.

Sylwch mai swyddog (y clerc fel y swyddog priodol fel arfer) yw'r unig unigolyn a all weithredu ar ran y cyngor. Y rheswm dros hyn yw eich bod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn broffesiynol.

Mae eithriadau i ddirprwyo. Ni all y cyngor ddirprwyo ei benderfyniadau ar yr archebiant (faint o'r dreth gyngor i'w chodi); rhaid i'r cyngor llawn gytuno ar hyn. Ni all ddirprwyo'r gwaith o gadarnhau'r ffurflen dreth flynyddol chwaith, sef dogfen sy'n cael ei llunio fel rhan o'r archwiliad blynyddol.

Rhaid i ddirprwyo gael ei gytuno'n ffurfiol gan y cyngor. Caiff dirprwyo dros dro ei gofnodi mewn cofnodion. Os yw dirprwyo'n arfer, caiff ei awdurdodi yn rheolau sefydlog y cyngor (gweler yr adran Gweithdrefnau). Mae'r pŵer i'r rhan fwyaf o glercod weithredu mewn sefyllfa frys wedi'i gynnwys yn y rheolau sefydlog.

Clerc fel ymgynghorydd cyfreithiol

Rhan o'ch gwaith yw cynghori'r cyngor ar faterion cyfreithiol. Mae'n bwysig eich bod yn canfod yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei olygu ac yn defnyddio eich gwahanol ffynonellau o hyfforddiant a chyngor er mwyn sicrhau eich bod yn datblygu ymwybyddiaeth dda o faterion cyfreithiol.

Mae'r statudau a'r arweiniad perthynol yn newid o hyd. Sicrhewch eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf trwy ddarllen *The Clerk* gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac *Y Llais* gan Un Llais Cymru. Mae hefyd o gymorth i chi ddilyn e-fforwm Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Am gyngor ar faterion cyfreithiol, dylai'ch cyfeirlyfr o gysylltiadau defnyddiol gynnwys Ymgynghorydd Cyfreithiol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a'r Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru. Y Swyddog Monitro yn eich prif awdurdod yw'r man galw cyntaf ar gyfer materion sy'n ymwneud â materion moesegol a'r Cod Ymddygiad. Ceir rhestr o gyfeirlyfrau defnyddiol yn Adran 7.

Yr hyn a ddywedodd clercod

Rydych yn cael cymorth gyda'r gyfraith os ydych yn aelod o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac os yw eich cyngor yn aelod o Un Llais Cymru. Ymhen amser, fe ddewch yn gyfarwydd â *Local Council Administration* gan Arnold-Baker, *Clerks' Manual* Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a *Standing Orders and Chairmanship* Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol. Ceir rhestr dda o bwerau yng Nghanllaw y Cynghorydd Da. Mae'r deddfau seneddol a'r offerynnau statudol mwyaf perthnasol i'w gweld yn **www.statutelaw.gov.uk/, www.opsi.gov.uk neu www.cymru.gov.uk**

4 GWEITHDREFNAU

Cyngor Cymuned Rhywle

CYFARFOD Y CYNGOR CYMUNED

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30pm nos Fawrth 14 EBRILL 2009 yn Neuadd y Pentref

Bydd agenda yn ymddangos yma ar neu cyn 9 Ebrill.

Llofnodwyd Mali Milain (Clerc y Cyngor)

2 Y Gilfach, Stryd Fawr, Rhywle, Ffôn 01234 567890

Enghraifft o hysbysiad ar gyfer cyfarfod

Gwneud penderfyniadau cyfreithlon

Mae gan gynghorau cymuned bwerau i weithredu mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd ac mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau. Mae llawer o benderfyniadau'n cynnwys gwario arian cyhoeddus, y mae'n rhaid ei amddiffyn. Mae'r gyfraith yn darparu ystod o weithdrefnau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gywir. Rhaid i benderfyniadau fod yn dryloyw ac ysbrydoli hyder. Mae'n rhan o waith y clerc i gynghori'r cyngor ar weithdrefnau. Mae rhai gweithdrefnau'n arfer da ac nid ydynt wedi'u gosod gan y gyfraith. Mae gweithdrefnau priodol yn amddiffyn y cyngor rhag heriau cyfreithiol ac yn helpu clercod i fod yn ddiduedd ac yn broffesiynol. Mae gweithdrefnau'n darparu rheolau ar gyfer y gêm ac, fel mewn chwaraeon, mae'r tîm yn gweithio orau pan fo pawb yn deall y rheolau.

Agendâu

Rhaid i bob cyfarfod gael ei gynnull yn gywir. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r clerc, yn ôl y gyfraith, anfon gwŷs wedi'i lofnodi at bob

cynghorydd o leiaf tri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Mae gwŷs (yn hytrach na gwahoddiad) yn atgoffa cynghorwyr o'u dyletswydd i fod yn bresennol.

Rhaid i'r gwŷs nodi'r busnes sydd i'w drafod ac felly ni all y cyngor wneud penderfyniad ar unrhyw fater nad yw wedi'i nodi. Yn ôl y gyfraith, nid yw *"tri diwrnod clir"* yn cynnwys diwrnod y cyfarfod na'r diwrnod y caiff y gwŷs ei anfon. Mae hefyd yn arfer da i eithrio gwyliau banc a phenwythnosau, ond nid yw hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae'r clerc yn llofnodi'r agenda (cofiwch fod hyn *yn* ofyniad cyfreithiol) ac felly'n gyfrifol am ei fformat a'i chynnwys, er ei bod yn arfer da i drafod hyn gyda'r cadeirydd yn gyntaf.

Mae'r clerc hefyd yn rhoi hysbysiad cyhoeddus mewn man amlwg sy'n hysbysebu amser a lleoliad y cyfarfod. Eto, rhaid i hyn gael ei wneud o leiaf tri diwrnod clir ymlaen llaw. Mae'n arfer da i gyhoeddi'r agenda i'r cyhoedd.

Mae sawl arddull a math o gynnwys derbyniol ar gyfer agendâu, y gallwch eu llunio i fod yn addas ar gyfer eich cyngor. Fe'ch cynghorir i astudio agendâu a luniwyd gan bobl eraill a derbyn hyfforddiant er mwyn canfod yr arfer gorau. Er enghraifft, rydym yn awgrymu eich bod yn ystyried y canlynol:

- Defnyddiwch bapur pennawd nodedig a darparwch fanylion cyswllt.
- Cynhwyswch eitem safonol ar y dechrau er mwyn atgoffa cynghorwyr i ddatgan unrhyw fuddiannau mewn eitem sydd i'w thrafod.
- Mynegwch eitemau fel bo'r cynghorwyr yn gwybod yr hyn y mae disgwyl iddynt ei wneud e.e. derbyn, cadarnhau, trafod, cytuno. A dywedwch wrth y cynghorwyr yr hyn y mae angen iddynt ei ystyried mor fanwl â phosibl.

Cyfarfodydd

Mae agenda glir dda, gyda dogfennau ategol clir, yn helpu'r cadeirydd i gynnal cyfarfod effeithiol nad yw'n hwy nag y dylai fod. Prif bwrpas cyfarfod yw penderfynu ar gamau gweithredu'r cyngor a gwaith y cadeirydd yw sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gywir. Mae cynghorwyr hefyd yn hoff o ddefnyddio cyfarfodydd i rannu gwybodaeth, ond dylid rheoli hyn yn ofalus, yn enwedig gan y gall adroddiadau hirfaith fod yn hynod ddiflas!

Rhaid i gworwm fod yn bresennol i wneud cyfarfod cyfreithlon. Y cworwm yw o leiaf traean o gyfanswm yr aelodau, neu dri ohonynt, pa un bynnag yw'r mwyaf.

Gellir annog y cyhoedd i ofyn cwestiynau neu roi sylwadau, ond nid yw hyn yn rhan o'r cyfarfod fel arfer. Gall ddigwydd cyn i'r cyfarfod ddechrau neu'n hwyrach pan gaiff y cyfarfod ei ohirio er mwyn caniatáu i'r cyhoedd siarad. Gellir gwahodd swyddog y prif awdurdod, yr heddwas lleol, arbenigwyr technegol a'r clerc i siarad yn ystod y cyfarfod. Rhaid croesawu'r cyhoedd a'r wasg i holl gyfarfodydd y cyngor ond ni ddylid trafod rhai eitemau, fel manylion staff neu dendrau, yn gyhoeddus. Yna, bydd y cyngor yn cytuno i wahardd y cyhoedd a'r wasg ar gyfer yr eitemau hynny yn unig. Ond byddwch yn ofalus - ni ddylai'ch cyngor wahardd y cyhoedd a'r wasg gan fod eitem yn ddadleuol yn unig.

Mewn rhai amgylchiadau, gall cadeirydd neu unrhyw ddau aelod gynnal cyfarfod arbennig.

Mae Cyfarfod Cymunedol Blynyddol yn gyfarfod i'r etholaeth. Yn Lloegr, mae'n orfodol i gynnal y cyfarfod hwn rhwng 1 Mawrth ac 1 Mehefin, ond *nid* yw'n orfodol yng Nghymru. Nid yw'n gyfarfod i'r cyngor, er y gall cadeirydd y cyngor gynnal y cyfarfod a'i gadeirio os yw'n bresennol. Nid oes fformat penodedig ar gyfer y cyfarfod hwn, ond gellir cynnwys cyflwyno adroddiad blynyddol y cyngor, trafod syniadau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, sylwadau a chwestiynau cyhoeddus am berfformiad y cyngor neu ddathlu sefydliadau'r pentref.

Rheolau Sefydlog

Mae cyngor cymuned yn llunio ei reolau ei hun ar gyfer yr arfer o gynnal ei fusnes. Mae'r rheolau hyn, a elwir yn rheolau sefydlog, yn cynnwys gweithdrefnau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol yn awgrymu rheolau sefydlog priodol (y gellir addasu llawer ohonynt) yn ei llyfr, *Standing Orders and Chairmanship*, sydd ar gael gan Un Llais Cymru.

Mae rheolau sefydlog yn cynrychioli cytundeb rhwng cynghorwyr ac yn helpu'r cadeirydd i reoli'r cyfarfod. Er enghraifft, gallant bennu:

- eitemau rheolaidd ar yr agenda;
- trefn busnes;
- faint o amser y gall cynghorydd siarad am fater;
- cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig pwyllgorau ;
- y pwerau a ddirprwywyd i'r clerc;
- hyd y cyfarfod neu ei amser gorffen.

Cofnodion

Mae gan y cyngor cymuned ddyletswydd gyfreithiol i gadw cofnodion o'i gyfarfodydd, y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth mewn llys barn. Daw cofnodion yn gyfreithlon pan gânt eu llofnodi gan y cadeirydd fel cofnod cywir. Fel arfer, caiff y cofnodion eu llofnodi yn y cyfarfod nesaf. Dylai cofnodion ar ddalennau rhydd gael eu rhifo'n olynol a dylai'r cadeirydd roi priflythrennau ei (h)enw ar bob tudalen.

Mae angen system rifo glir ar gofnodion er rhwyddineb. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn defnyddio system sy'n gysylltiedig â blwyddyn y cyngor. Dylai cofnodion gael eu cadw'n ddiogel am byth, naill ai gan y cyngor neu eu hanfon i'r archif sirol.

Rhaid i'r cofnod o benderfyniadau fod yn hollol glir. Dim ond os gofynnir yn benodol i chi gofnodi pleidlais cynghorydd y mae'n ofynnol i chi wneud hynny. Mae'n arfer da i ddefnyddio'r ymadrodd canlynol mewn testun bras.

Penderfynwyd .....

Dylai cofnodion fod mor gryno â phosibl, ond nid oes llawer o gytundeb ar yr arddull cywir ar gyfer cofnodion! O leiaf, rhaid i'r cofnodion nodi'r penderfyniad ond gallant hefyd gynnwys crynodeb byr o bwyntiau pwysig, lle bo hyn yn ychwanegu gwerth. Nid yw adroddiad manwl ar bwy a ddywedodd beth yn angenrheidiol nac yn fuddiol.

Mae'n arfer da i'r clerc drefnu bod y cofnodion ar gael i'r cyhoedd eu gweld cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl

y cyfarfod. Cyn eu llofnodi, gellir eu labelu'n 'cofnodion drafft'. Dylid esbonio argaeledd y cofnodion yng nghynllun cyhoeddiadau'r cyngor a luniwyd yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod dogfennau y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt yn hygyrch.

Pwyllgorau

Mae'n bosibl y gofynnir i chi gynghori ar strwythurau pwyllgorau. Gall cyngor drefnu i bwyllgor wneud penderfyniadau neu wario arian ar ei ran, ac eithrio wrth osod yr archebiant, gan gymeradwyo'r adroddiad blynyddol neu gytuno i gael benthyciad. Fel arall, gall y cyngor gadw'r rôl o wneud penderfyniadau, ac yn yr achos hwn bydd y pwyllgorau neu'r is-bwyllgorau yn rhoi cyngor yn unig. Gall pwyllgor benodi is-bwyllgor ar gyfer tasgau penodol. Mae cynghorau'n aml yn creu gweithgorau dros dro i archwilio neu weithio ar bynciau arbennig; mae'r rhain yn grwpiau ymgynghorol yn unig.

Dylai rheolau sefydlog bennu cylch gorchwyl pwyllgorau. Caiff cadeirydd pwyllgor ei (h)ethol yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor a rhaid iddo ef/iddi hi fod yn gynghorydd. Gellir cyfethol pobl nad ydynt yn gynghorwyr i bwyllgorau eraill mewn rôl ymgynghorol, ond ni chaniateir iddynt bleidleisio fel arfer. Rhaid i bwyllgor ariannol gynnwys cynghorwyr yn unig.

Rhaid i'r cyhoedd gael eu hysbysu a rhaid iddynt gael mynediad at gyfarfodydd pwyllgorau yn yr un modd â chyfarfodydd y cyngor.

Cynghorwyr

Mae rheolau ynghylch pwy all fod yn gynghorydd, cynnal etholiadau a beth sy'n digwydd os oes sedd wag yn y cyngor. Y ffynhonnell orau o gyngor yw'r Swyddog Etholiadau neu'r Swyddog Canlyniadau yn y prif awdurdod.

Mae'r cyngor cymuned cyfan yn cael ei ethol bob pedair blynedd. Gall etholiad fod yn etholiad a ymleddir (mwy o ymgeiswyr na seddi) neu'n etholiad heb ei hymladd. Os oes mwy nag un ymgeisydd ar gyfer sedd, yna rhaid cynnal pleidlais. Os nad oes digon o ymgeiswyr ar gyfer y seddi yna, ar ôl dyddiad yr etholiadau, gall y cyngor gyfethol pobl i lenwi'r seddi gwag o fewn cyfnod penodol.

Gall cynghorwyr adael rhwng etholiadau am amrywiaeth o resymau. Os bydd cynghorydd yn penderfynu ymddiswyddo, rhaid iddo/iddo ysgrifennu at y cadeirydd tra bo'r cadeirydd yn ymddiswyddo trwy ysgrifennu i'r cyngor. Mae hyn yn creu 'sedd wag dros dro'. Dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau am arweiniad. I ddechrau, rydych yn dilyn y gweithdrefnau cywir er mwyn canfod a yw'r etholwyr am gynnig ymgeisydd ar gyfer yr etholiad (a allai fod yn etholiad a ymleddir neu'n etholiad heb ei hymladd). Os nad ydynt, wedi i'r amser cywir fynd heibio, gellir llenwi'r sedd drwy gyfethol (cyn belled â bod yr etholiadau pedair blynedd dros chwe mis i ffwrdd). Gellir llenwi bylchau yn y broses gyfreithiol trwy weithdrefn gyfethol y cyngor.

Pan fydd cynghorwyr yn derbyn eu sedd am y tro cyntaf, maent yn gwneud datganiad ffurfiol yn derbyn swydd y cynghorydd. Maent hefyd yn addo dilyn Cod Ymddygiad y cyngor. Mae ffurflen arbennig ar gyfer y diben hwn ar gael gan Un Llais Cymru neu'r Swyddog Monitro.

Caiff cynghorwyr eu diarddel o'r swydd os nad ydynt yn bresennol mewn o leiaf un o gyfarfodydd y cyngor mewn cyfnod o chwe mis olynol; mae holl gyfarfodydd y cyngor yn cyfrif, gan gynnwys gweithgorau, cyfarfodydd safle neu gyfarfodydd yn cynrychioli'r cyngor. Wrth i ddiwedd y chwe mis nesáu, gall cynghorydd ofyn i'r cyngor gymeradwyo rheswm (fel salwch) dros beidio â bod yn bresennol. Os yw'r cyngor yn ei gymeradwyo, yna gellir ymestyn cyfnod yr absenoldeb. Mae cynghorwyr yn ymddiheuro os na allant ddod i gyfarfod fel y gellir cadw cofnod presenoldeb cywir.

Y fframwaith moesegol

Mae rheolau er mwyn sicrhau bod cynghorwyr yn cynnal ymddygiad o safon uchel yn eu bywyd cyhoeddus. Maent yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cymru neu Loegr. Er enghraifft, rhaid i gynghorwyr osgoi dwyn gwarth ar y cyngor, ac ni ddylent ddefnyddio eu swydd i sicrhau mantais nac anfantais. Rhaid iddynt hyrwyddo cydraddoldeb a thrin pobl (gan gynnwys staff) â pharch. Mae cosbau os bydd cynghorwyr yn torri'r Cod Ymddygiad.

Hefyd, rhaid i gynghorwyr ddatgan eu buddiannau mewn mater i'w drafod mewn cyfarfod cyn gynted ag y byddant yn ymwybodol bod rhywbeth o fudd iddynt. Dyma pam y mae pennawd ar yr agenda sy'n rhoi cyfle i'r cynghorwyr ddatgan yn gynnar yn y cyfarfod mor ddefnyddiol. Yna, caiff y datganiad ei gofnodi. Mae'n bosibl na fyddant yn cael siarad na phleidleisio ar y mater ac efallai y bydd raid iddynt adael yr ystafell, gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol y mae'r budd. Ni all unrhyw un ddweud wrth gynghorydd i ddatgan bod rhywbeth o fudd iddo nac i adael yr ystafell. Penderfyniad y cynghorydd gyda'r budd posibl yw hyn.

Bydd eich SCS yn eich helpu i ddod o hyd i hyfforddiant ar y mater hwn, a fydd yn cael ei ddarparu gan Swyddog Monitro eich prif awdurdod fel arfer. Yn yr un modd ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gynghorau lleol, bydd angen i'ch cyngor gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau.

Yr hyn a ddywedodd clercod

Mae agenda fanwl dda wedi'i theipio ar gyfrifiadur yn sail dda ar gyfer y cofnodion, ond peidiwch â chael eich temtio i ysgrifennu'r agenda fel pe bai'n gofnodion!

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cael y gweithdrefnau'n gywir, yn enwedig gan fod llawer ohonynt wedi'i seilio ar y gyfraith. Mae'r agenda a'r cofnodion (eich cyfrifoldeb chi) yn dangos bod penderfyniadau'n gyfreithlon. Dylech allu dod o hyd i enghreifftiau o agendâu a chofnodion yn y ffeiliau wedi i chi dderbyn y swydd. Cofiwch fod rhaid cadw rhai

dogfennau am gyfnod penodol o amser, tra bo cofnodion yn cael eu cadw am byth, naill ai gan y clerc neu mewn archifau.

I ddechrau, byddwch yn dilyn yr un arddull â'ch rhagflaenydd, ond os ydych yn gweld bod angen gwneud newidiadau, cyflwynwch nhw'n bwyllog ar gyflymder sy'n addas ar gyfer eich cyngor. Nid yw unrhyw gyngor yn hoffi clywed eu bod wedi bod yn gwneud pethau'n anghywir, ond bydd yn dysgu'n fuan i wrando ar glerc pwyllog a gwybodus. Bydd hyfforddiant pellach yn eich helpu i wneud gwelliannau yn ôl yr angen.

Gweithiodd Cyngor Tref Cas-gwent gyda gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol lleol i godi sbwriel yn y coetir lleol.

4 CYLLID

Arian cyhoeddus

Mae arian y cyngor yn arian cyhoeddus ac mae'r cyngor yn gyfrifol amdano, ond mae'n bosibl y bydd rheoli ei gyllid yn rhan bwysig o'ch gwaith chi. Os mai chi yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) yn ogystal â'r clerc, dylech wirio bod eich swydd ddisgrifiad yn cynnwys eich gwaith fel y SAC.

Anela'r cyngor cymuned i roi gwerth am arian wrth iddo godi a gwario arian er budd y gymuned leol. Dylai etholwyr fod yn hyderus bod eu harian yn cael ei reoli'n briodol. Mae ganddynt hawl i ddisgwyl i'r cyngor leihau risg, yn arbennig trwy osgoi dyledion drwg a cholled trwy dwyll.

Wrth wario unrhyw arian, rhaid i'r cyngor fod yn hyderus:

fod ganddo bŵer cyfreithiol (nad yw'n gweithredu y tu hwnt i'w bwerau);

- ei fod yn dilyn gweithdrefnau cyfreithlon;
- nad yw'n mentro perygl heb fod angen;
- bod unrhyw drafodion yn dryloyw;
- bod cynghorwyr yn cydymffurfio â safonau wrth wneud penderfyniadau cyhoeddus.

Mae rheolaeth ariannol gadarn mor bwysig fel ei bod yn cael ei rheoli gan Ddeddfau Seneddol a rheoliadau statudol. Mae'r rheoliadau hyn yn darparu fframwaith manwl y mae'n rhaid i gynghorau ei ddilyn. Maent i'w gweld yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2003 a'r diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2006.

Dywed y rheoliadau bod y cyngor yn gyfrifol am:

- benodi swyddog priodol i reoli ei gyllid;
- dilyn gweithdrefnau ariannol cyfreithlon a chywir;
- penderfynu faint o archebiant i ofyn amdano o'r dreth gyngor;
- pennu systemau rheoli ac archwilio mewnol cadarn;
- pennu ei reoliadau ariannol ei hun yn y rheolau sefydlog;
- derbyn y cyfrifon diwedd blwyddyn yn ffurfiol;
- cyflwyno'r hyn sydd ei angen ar yr archwilydd allanol;
- cyhoeddi'r cyfrifon a chanlyniadau'r archwiliad.

Mae'r cyngor hefyd yn gyfrifol am osod cyllideb a monitro incwm a gwariant y cyngor yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd. Rhaid i reolaeth ariannol fod yn hollol dryloyw i'r cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd fel ei gilydd.

Bydd o gymorth i chi gael yr argraffiad diweddaraf o *Practitioners' Guide (Wales)* sy'n cynnwys manylion am reolaeth ariannol, a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Swyddfa Archwilio Cymru, Un Llais Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyflenwyr archwilio allanol a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Ei deitl llawn yw *Governance and Accountability: A Practitioners' Guide 2008 (Wales)*. Mae ar gael ar wefan Un Llais Cymru www.unllaiscymru.org.uk ac ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru www.wao.gov.uk.

Cyllidebau a pholisïau

Mae'r gyllideb yn dangos sut y caiff polisïau'r cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau ac ymateb i anghenion lleol eu hariannu. Mae'n cynnwys cynllun cytûn o incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth. Bydd angen i chi fod yn gyfarwydd iawn â'r gyllideb.

Mae'r archebiant yn rhan o'r gyllideb; mae'n llenwi'r bwlch rhwng gwariant a gynlluniwyd ac incwm a gynlluniwyd. Yr archebiant yw'r dreth gyngor y mae'r prif awdurdod yn ei chasglu ar ran y cyngor cymuned. Sylwch nad yr archebiant yw unig ffynhonnell incwm cyngor yn aml; mae llawer o ddulliau eraill o godi arian i'w ddefnyddio yn y gymuned leol.

Efallai y bydd angen mwy o gyngor arnoch ar sut i lunio cyllideb i'w chyflwyno i'r cyngor er mwyn iddynt ei thrafod a'i chymeradwyo yn y pen draw. Cynhelir y trafodaethau hyn yn yr hydref fel arfer.

Yna, mae'r gyllideb gytûn yn ganllaw i weithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Dylai'r cyngor fonitro incwm a gwariant yn erbyn y cynllun, felly mae'n ddefnyddiol os ydych yn cyflwyno datganiad o'r sefyllfa i'r cyngor naill ai'n fisol neu bob chwarter fel y bo'n briodol.

Cadw cyfrifon

Mae'r rheolau ychydig yn wahanol gan ddibynnu ar swm yr arian sy'n mynd trwy lyfrau'r cyngor. Er enghraifft, (ac mae angen i chi ymchwilio'n fwy i hyn) mae'n ofynnol i'r cynghorau mwyaf (sydd â thros £1,000,000) baratoi eu cyfrifon yn

unol â'r arferion yn Natganiad o'r Arfer a Argymhellir CIPFA/LASAAC a fydd yn cyflogi cyfrifydd proffesiynol i ymdrin â'u hanghenion cymhleth. Rhaid i gynghorau sydd â chyllideb o dros £100,000, gadw cyfrifon incwm a gwariant o leiaf, ond gallant ddewis cadw eu cyfrifon yn unol â rheolau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, fodd bynnag, o ystyried natur gymhleth a chostau ychwanegol trefniadau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, mae'r mwyafrif helaeth yn cadw cyfrifon incwm a gwariant. Gall cynghorau â chyllidebau llai ddewis cadw cyfrif o dderbynebau a thaliadau syml trwy gydol y flwyddyn.

Mae cyfrif derbynebau a thaliadau yn cofnodi arian yn symud i mewn ac allan o goffrau'r cyngor wrth iddo symud, tra bo cyfrifon incwm a gwariant yn cofnodi trafodyn ar y dyddiad y mae'n ymwneud ag ef. Gwneir cofnodion yn y cyfrifon dan benawdau i'w dadansoddi, gan gynnwys penawdau ar wahân ar gyfer TAW ac a137. Caiff y cyfrifon eu mantoli'n rheolaidd, tua unwaith y mis. Felly, caiff y golofn a'r llinell eu cyfansymu a'r cyfansymiau eu mantoli. Byddwch hefyd yn gwirio'r cyfrif mantoledig yn erbyn y gyfriflen banc pan ddaw honno; gelwir hyn yn gysoniad banc.

Rhaid i'r holl drafodion, p'un a yw arian yn dod i mewn neu'n mynd allan, gael eu cofnodi gan gynnwys anfonebau a bonion sieciau. Dylai fod yn bosibl olrhain pob agwedd ar drafodyn trwy'r gwaith papur. Dylai rhywun sy'n gyfrifol am wirio'r trywydd fod gennych o bryd i'w gilydd.

Diwedd y flwyddyn ac archwiliadau

Mae'r system yn cynnwys archwiliad mewnol (wedi'i drefnu gan y cyngor) ac archwiliad allanol (wedi'i drefnu gan archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru). Rhaid i archwilydd mewnol eich cyngor fod yn annibynnol ar y cyngor ac yn gymwys i wneud y gwaith.

Ar ôl 31 Mawrth, rydych chi (os mai chi yw'r SAC) yn llunio ac yn mantoli'r cyfrifon diwedd blwyddyn ac yn paratoi ar gyfer yr archwiliad. Rhaid i chi ddarganfod pa ddogfennau sydd eu hangen ar gyfer maint cyllideb eich cyngor. Rhaid i chi wybod hefyd a oes angen archwiliad sylfaenol, canolig neu lawn ar eich cyngor. Yn naturiol, daw'r gwaith papur yn fwyfwy cymhleth po fwyaf yw cyllideb y cyngor.

Rhaid i'r rhan fwyaf o gynghorau (sydd â chyllidebau o lai nag £1 miliwn) lenwi ffurflen flynyddol a'i hanfon at gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru – yr archwilydd allanol. Mae'r cyfarwyddiadau ar y ffurflen yn ei gwneud yn glir iawn yr hyn y mae angen i'r cyngor ei wneud. Felly, wedi i chi lunio'r dogfennau diwedd blwyddyn, rydych yn llenwi'r datganiadau ar y ffurflen flynyddol yn ôl yr angen ac yn trefnu iddi gael ei chymeradwyo a'i llofnodi. Mae'r archwilydd mewnol annibynnol yn gwneud y gwiriadau gofynnol, gan sicrhau bod gan y cyngor weithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli ei gyllid. Nid gwirio eich mathemateg yw hyn o reidrwydd! Mae'r archwilydd mewnol annibynnol yn llenwi ac yn llofnodi'r adroddiad sydd ei angen fel rhan o'r ffurflen flynyddol.

Rhaid i'r cyfrifon fod ar gael i etholwyr eu gweld os ydynt yn dymuno. Mae rheolau sy'n llywodraethu'r terfynau amser ar gyfer hysbysebu a threfnu cyfleoedd i weld dogfennau y mae'n rhaid eu dilyn. Rhaid i'r ffurflen dreth flynyddol gael ei harddangos yn gyhoeddus hefyd. Bydd y cyngor yn gobeithio y bydd yr archwilydd allanol yn ymateb trwy roi 'sicrwydd cyfyngedig'; mae hyn yn golygu nad oes unrhyw beth wedi peri pryder.

Gweithdrefnau ariannol (neu reoliadau ariannol)

Rhaid bod rheolau sefydlog penodol ei hun gan y cyngor cymuned ar gyfer rheolaeth ariannol. Er enghraifft, rhaid i ddau gynghorydd lofnodi pob siec ac archeb ar gyfer taliad, ond cyn belled â bod hyn yn cael ei fodloni, gellir defnyddio amrywiadau.

Cofiwch, ni ddylai'r cyngor gytuno i wario arian yn fyrfyfyr (mae angen iddynt roi rhybudd o dri diwrnod clir) ac ni ddylai cynghorwyr unigol ymrwymo'r cyngor i wario arian ar ran y cyngor. Cofiwch y gellir dirprwyo pwerau i swyddogion a rhai pwyllgorau wario, hyd at derfyn cytûn fel arfer.

Mae TAW yn faes cymhleth i gynghorau cymuned sy'n gallu codi TAW, talu TAW ac yna ei hadennill. Rhaid bod yswiriant priodol gan y cyngor hefyd a rhaid cydymffurfio â rheolau Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol. Mae bron yn sicr y bydd angen mwy o gyngor arnoch.

Fe'ch cynghorir i gael cymorth arbenigol ar faterion ariannol gan (er enghraifft) swyddog cyllid eich prif awdurdod, swyddog TAW, swyddog treth incwm, ymgynghorydd yswiriant eich cyngor, eich archwilydd mewnol annibynnol, ymgynghorydd ariannol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a'r Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru.

Yr hyn a ddywedodd clercod

Fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol, byddwch yn gyfrifol am gadw'r cyfrifon, y gyllideb, paratoi'r cyfrifon i'w harchwilio ac am dalu cyflogau. Os nad ydych wedi arfer â chadw cyfrifon a gosod cyllideb, gallai hyn fod yn dasg frawychus, ond mae digon o bobl y gallwch ofyn am gymorth ganddynt.

6 CYNLLUNIO

Disgyblion Ysgol Gynradd Bynea, Llanelli yn cyflwyno eu dyluniad ar gyfer gwelliannau i'r buarth i'w hariannu trwy gytundeb (lles cynllunio) a106

Ambell waith, cynllunio yw'r agwedd fwyaf bywiog ar waith y cyngor. Mae'r system gynllunio yn helpu i amddiffyn a chreu cymunedau ac amgylcheddau ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae angen i'r cyngor ddeall y system gynllunio os yw am leisio ei farn a bydd cynghorwyr yn cael budd o'ch cyngor a'ch cefnogaeth. Mae'r system yn newid yn gyson (ac ar wahanol gyfraddau mewn gwahanol leoedd) felly bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn eich ardal chi.

Ni all cyngor cymuned gymeradwyo na gwrthod caniatâd cynllunio (fel arfer), ond gall roi ei farn a cheisio dylanwadu ar benderfyniadau penodol a pholisi cynllunio. Mae ei gryfder yn deillio o'i wybodaeth leol. Yn gyffredinol, mae'r rheiny sy'n gwneud y penderfyniadau gwirioneddol yn gweithio i'ch prif awdurdod.

Rheoli datblygu

Mae datblygu wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth ac yn cynnwys newidiadau (gan gynnwys newid defnydd) ar, dros neu o dan dir. Weithiau, nid yw'n hawdd penderfynu beth sy'n 'ddatblygiad'.

Mae cynllunio a rheoli datblygu yn destun i'r gyfraith ac arweiniad y llywodraeth. Mae angen i'r cyngor ddangos ei fod yn deall hanfodion y gyfraith, er nad yw manylion y gyfraith bob amser yn glir.

Mae awdurdodau cynllunio yn rheoli datblygu trwy ymateb i geisiadau am ganiatâd i wneud datblygiadau. Caiff rhai datblygiadau (fel estyniadau bach) eu caniatáu fel mater o drefn, tra bo gan hyd yn oed y newidiadau lleiaf i adeiladau eraill amddiffyniad ychwanegol. Mae adeiladau arbennig a amddiffynnir yn cael eu galw'n adeiladau rhestredig; os oes gennych rai yn eich ardal chi, mae angen i chi ddarganfod pa reolau sy'n berthnasol. Weithiau, caiff ardaloedd cyfan eu hamddiffyn gan statws arbennig fel Ardaloedd Cadwraeth, Lleiniau Glas, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. Os yw'r rhain yn effeithio ar eich ardal chi, bydd angen i chi gael mwy o wybodaeth.

Swyddogion cynllunio'r awdurdod cynllunio sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio, fel sy'n ofynnol gan y Llywodraeth. Caiff rhai eu penderfynu gan bwyllgor o gynghorwyr yr awdurdod cynllunio ac ambell waith bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn cais ac yn trefnu ymchwiliad cyhoeddus. Weithiau, bydd datblygwr yn apelio yn erbyn penderfyniad, ac os nad yw'r datblygwyr yn cydymffurfio â phenderfyniadau cynllunio, yna gellir defnyddio'r broses orfodi i ddatrys hyn.

Gwneud arsylwadau

Byddwch yn helpu'r cyngor cymuned i wneud sylwadau am geisiadau cynllunio fel rhan o'i waith rheolaidd. Mae angen i chi allu cynghori'r cyngor ar sylwadau derbyniol ar gais cynllunio. Rhaid i sylwadau'r cyngor ymwneud â materion, rheolau a pholisïau cynllunio. Fel arfer, rhoddir caniatâd os yw'r datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r prif awdurdod. Er enghraifft, ni ddylai sylwadau gyfeirio at nodweddion yr ymgeisydd na gwerth yr eiddo.

Gallai'r enghreifftiau hyn o faterion cynllunio fod yn berthnasol i gais, ac felly gallai'r cyngor plwyf wrthod am unrhyw rai o'r rhesymau canlynol.

- Hanes cynllunio'r safle a'r cynllun/fframwaith datblygu
- Maint y datblygiad
- Amlen datblygu'r anheddiad
- Tirwedd sy'n gyfagos at y safle
- Rhwydwaith mewnol (gwasanaethau, cyfleusterau, ffyrdd, parcio)
- Yr effaith ar draffig
- Hygyrchedd y safle
- Hawliau tramwy

Rheoli cynllunio

Byddwch yn cael budd o ddod i adnabod y swyddogion cynllunio yn eich awdurdod cynllunio sy'n gweithio ar geisiadau cynllunio neu bolisïau cynllunio ar gyfer eich ardal chi.

Mae angen ymatebion cyflym ar awdurdodau cynllunio, felly rhaid i'r cyngor cymuned benderfynu sut i wneud penderfyniadau yn yr amser sydd ar gael. Y ffordd orau yw i bwyllgor bach sydd â'r pŵer i benderfynu gyfarfod unwaith bob pythefnos.

Dylai'r holl geisiadau cynllunio argraffedig gael eu ffeilio mewn lle hygyrch gyda nodyn o argymhelliad y cyngor cymuned a phenderfyniad yr awdurdod cynllunio. Mae mwyfwy o geisiadau'n cael eu harchifo ar-lein gan yr awdurdod cynllunio.

Y cynllun datblygu

Mae polisïau'r awdurdod cynllunio ar gyfer datblygu yn dyngedfennol i benderfyniadau am geisiadau cynllunio. Rhoddir polisïau lleol perthnasol at ei gilydd er mwyn darparu 'cynllun datblygu lleol' (CDLl). Rhaid i'r CDLl gydymffurfio â deddfwriaeth gynllunio ac arweiniad strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a bydd yn cynnwys cynllun datblygu'r prif awdurdod ei hun.

Dylai'ch cyngor geisio dylanwadu ar y cynllun datblygu, yn enwedig lle bo'n ymwneud â'ch ardal benodol chi. Mae hyn yn hynod bwysig. Gallai'ch cynllun cymunedol neu'ch datganiad dylunio (gweler isod) fod yn ddefnyddiol yma. Os dynodwyd ardal at ddiben penodol dan y CDLl, bydd yn amhosibl ei newid yn hwyrach pan fydd y cyngor am wrthod cais cynllunio.

Bydd unrhyw Strategaeth Cymuned Gynaliadwy, a luniwyd gan Bartneriaeth Strategol Leol yr ardal, hefyd yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun. Yn ddelfrydol, bydd y strategaeth hon ar gyfer lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ardal yn tynnu ar gynllun eich plwyf neu dref.

Barn y gymuned

Mae ymgysylltiad cyngor cymuned bob amser yn gweithio orau os yw wedi'i seilio ar ddealltwriaeth briodol o farn ac anghenion lleol. Mae llawer o syniadau ar gyfer canfod yr hyn y mae pobl yn ei feddwl, ond gall arolygon, gweithdai a gweithgareddau modelu lywio polisïau cynllunio eich cyngor. Bydd cynghorau cymuned gweithgar yn arwain y ffordd wrth lunio cynllun cymunedol neu ddatganiad dylunio sy'n cynnwys cynigion ar gyfer dyfodol hirdymor y plwyf – er bod y rhain yn gweithio orau os ydynt i'w gweld yn cael eu harwain gan ystod ehangach o bobl leol.

Bydd cynlluniau cymunedol a datganiadau dylunio yn cyfrif mwy os cânt eu mabwysiadu gan yr awdurdod cynllunio fel rhan o'i bolisi cynllunio. Mae'n ddoeth cynnwys yr awdurdod cynllunio yn y broses o lunio'r dogfennau hyn.

Mae cynllun cymunedol yn cwmpasu'r ystod gyfan o faterion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol. Mae datganiad dylunio yn ymwneud yn fwy â defnyddio gofod yn y gymuned. Mae'n ganllaw ar nodweddion ffisegol sy'n gwneud yr ardal yn wahanredol ac yna gellir cynllunio datblygiadau newydd i gydweddu â'r nodweddion hyn. Mae datblygwyr yn hoffi defnyddio datganiad dylunio; mae'n golygu eu bod yn gwybod ble maent yn sefyll. Gallwch gael gwybodaeth am ddatblygu Cynllun Cymunedol gan eich prif awdurdod.

Y ffynhonnell orau o wybodaeth am gynllunio yw eich awdurdod cynllunio ei hun. Gallai Un Llais Cymru drefnu sesiynau hyfforddiant ar y pwnc poblogaidd hwn hefyd. Ceir arweiniad pellach yn y *Llawlyfr i Gynghorwyr Cymuned a Thref: System Cynllunio Defnydd Tir yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Un Llais Cymru a Cymorth Cynllunio Cymru, sydd ar gael gan Cymorth Cynllunio Cymru: www.planning-aid-wales.org. Sylwch *nad* yw'r llyfryn yn cwmpasu cynlluniau cymunedol na datganiadau dylunio.

Yr hyn a ddywedodd clercod

Nid oedd llawer ohonom yn gwybod y gall cyngor ond dirprwyo cynllunio i'r clerc, pwyllgor neu is-bwyllgor. Nid oeddem yn sylweddoli na allwch basio amlen o gwmpas yn cynnwys cynlluniau na gadael i'r cadeirydd wneud penderfyniadau.

Yn y dyddiau cynnar, byddai wedi bod o gymorth mawr pe byddem yn deall y cysyniad bod awdurdod cynllunio yn rhwymedig i lunio a chytuno ar ei gynllun datblygu ei hun a gweithio tuag ato.

6 GWEITHREDU CYMUNEDOL

Y neuadd gymunedol newydd hirddisgwyliedig ar gyfer pentref Ffwrnais a ariannwyd gan Gyngor Gwledig Llanelli ac a fydd yn darparu man cyfarfod newydd ar gyfer y gymuned leol, ynghyd â stiwdio gwaith coed ac ystafell gyfrifiaduron

Bod yn weithredol

Mae sawl gwahanol fath o gyngor cymuned. Mae llawer ohonynt yn weithgar iawn, tra bo eraill yn anymwthiol. Mae rhai'n darparu gwasanaethau'n ddiwyd, tra bo eraill yn monitro camau gweithredu a gymerir gan bobl eraill yn ofalus. Mae pob cyngor yn gweithio'n galed i gynrychioli buddiannau lleol ond yn gwneud hyn mewn ystod eang o wahanol ffyrdd. Dylech wybod, cyn i chi ymgeisio am eich swydd hyd yn oed, pa fath o gyngor y gallech chi fod yn gweithio iddo.

Eich gwaith yw cynghori'r cyngor ar y gweithgareddau y gallai ymgymryd â nhw a helpu'r cyngor i roi ei benderfyniadau ar waith. Gallech annog y cyngor i fod yn weithgar, hyd yn oed os nad oes ganddo lawer o arian. Gall y cyngor fod yn effeithiol iawn os yw'n helpu sefydliadau eraill i gyflawni eu nodau trwy, er enghraifft, ddarparu cymorth mewn nwyddau, grantiau sefydlu neu gyfleusterau rhad.

Bydd angen eich cymorth ar y cyngor os yw'n gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill. Bydd y gymuned yn cael budd os yw'r cyngor yn cyfuno adnoddau ac yn rhannu gweithgareddau gyda grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol, diddordebau busnes ac asiantaethau'r llywodraeth. Gallai cyngor ystyried ymuno â chynghorau cymuned eraill yn yr ardal hyd yn oed, er mwyn i bob un ohonynt fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael. Yn bwysicach fyth, dylai'r cyngor fod yn cydweithio'n agos â'i brif awdurdod. Mae rhai prif awdurdodau wedi llunio cytundebau siarter gyda'u cynghorau cymuned. Bydd angen i chi ganfod a oes siarter yn eich ardal chi.

Mae gan gyngor gweithredol gynlluniau a phrosiectau ar gyfer y dyfodol. Sut mae'ch cyngor yn penderfynu ar yr hyn y mae am ei wneud ar gyfer y gymuned? A yw'r cyngor yn rhoi gwybod i'r etholaeth am yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud a'r hyn y mae wedi'i wneud? Dylai'r cyngor wneud popeth y gallai i godi ei broffil yn y gymuned.

Gwrando

Cynghorau cymuned yw'r agosaf at y bobl y maent yn eu gwasanaethu, ac felly dylent fod yn ymwybodol o anghenion lleol. Sut mae'ch cyngor yn canfod barn pobl, yr hyn sydd ei angen arnynt a'r hyn y byddant yn talu amdano? Efallai ei fod yn gwrando ar yr etholaeth mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae angen i'ch cyngor fod yn wybodus os yw am gynrychioli'r farn leol.

Mae dulliau traddodiadol o wrando yn cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, annog etholwyr i ofyn

cwestiynau mewn fforwm cyhoeddus cyn cyfarfodydd y cyngor a chynnal pleidlais gymunedol. Fodd bynnag, mae sawl ffordd arall o gyrraedd mwy o bobl yn y gymuned, yn enwedig y rheiny nad oes ganddynt hyder, sgiliau nac ymwybyddiaeth o'r system ac sydd ag ofn mynegi eu barn. Efallai y gofynnir i chi gynghori ar arolygon sy'n arwain at gynllun cymunedol, grwpiau ffocws, map cymunedol, panel dinasyddion, cynadleddau cymunedol, *Planning for Real*®; mae pob un o'r rhain yn ddulliau o ymgysylltu â'r gymuned y gallech ymchwilio iddynt yn y pen draw.

Mae'r cynghorau gorau yn cydnabod y bydd pobl yn aml yn mynegi barn os ydych yn siarad â nhw un-i-un, ond yn cadw'n dawel pan ofynnir i'r gymuned fynegi ei barn. Mae angen i'r cyngor ddod o hyd i ffyrdd o helpu pawb, hyd yn oed y rhai tawel, i ddylanwadu ar benderfyniadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ni ddylai unrhyw un deimlo dan anfantais na theimlo eu bod yn cael eu hallgáu o'r gymuned neu'r system wleidyddol.

Os yw'r cyngor yn annog pobl i gymryd rhan, efallai y byddant wir yn deall bod y cyngor yn perthyn iddynt. Efallai y bydd ganddynt ddiddordeb mewn gwasanaethu ar y cyngor ymhen amser hyd yn oed. O leiaf, bydd gan bobl fwy o ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol.

Yr hyn a ddywedodd clercod

Mae mor ddefnyddiol cael rhestr o grwpiau cymunedol yn y dyddiau cynnar fel eich bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw. Mae'n arbed llawer o amser ac ymdrech!

7 BLE NESAF?

Ffynonellau cyngor

Yr hyn a ddywedodd clercod

P'un a ydych yn gweithio ar eich pen eich hun ai peidio, gallech deimlo'n unig o bryd i'w gilydd, ond mae rhwydwaith y clercod yn sicrhau nad oes angen i chi deimlo'n unig am yn hir. Fe'ch argymhellir yn gryf i ymuno â Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae ffurflen aelodaeth ar gael gan y swyddfa yn Taunton (01823 253646) neu ar y wefan (www.slcc.co.uk). Bydd aelodaeth yn rhoi mynediad at:

- Wefan Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol sy'n cynnwys llawer o wybodaeth dda
- Fforwm e-bost cenedlaethol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- Copïau o gylchgrawn *The Clerk*
- Pecyn offer o ddeunyddiau defnyddiol ar gryno ddisg
- Hyfforddiant
- Cynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol
- Y llyfryn *Clerks' Manual*
- Mynediad at glercod profiadol a swyddogion cangen a fydd yn eich helpu
- Y gwasanaeth ymgynghorol sy'n darparu gwybodaeth am adnoddau dynol a materion cyfreithiol neu ariannol dros y ffôn
- SCS, sef clerc cyfeillgar a benodir ar eich cyfer gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- Cyfarfodydd cangen a 'chynulliadau' lleol

Cysylltwch â chlercod eraill yn eich ardal. Mae clercod yn griw cyfeillgar fel arfer ac maent bob amser yn barod i helpu. Mae sawl ffordd o gael manylion cyswllt y clercod eraill yn eich ardal. Bydd gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol neu eich prif awdurdod restr ohonynt.

Mae eich Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru yn ffynhonnell bwysig o gyngor ar gyfer eich cyngor; ewch i www.unllaiscymru.org.uk .

Bydd eich SCS, gyda chefnogaeth y rhwydwaith lleol, yn eich helpu i ganfod eich ffordd trwy eich cyfeirio at y rheiny sy'n gallu rhoi help a chyngor sy'n briodol i'r pwnc. Er enghraifft, bydd yn eich helpu i ddod o hyd i'r Swyddog Etholiadau yn y prif awdurdod neu'r Swyddog Monitro, sef eich man galw cyntaf ar gyfer materion moesegol a'r Cod Ymddygiad. Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw gofyn. Hefyd, gall eich SCS eich helpu os oes angen i chi drafod cymhlethdodau'ch swydd a bydd yn eich cyfeirio at hyfforddiant sy'n briodol i'ch anghenion.

Hyfforddiant

Mae gennych Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau (fel Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phrif awdurdodau) sy'n cydweithio i gynllunio a gweithredu strategaeth ar gyfer hyfforddi a datblygu cynghorau cymuned yn eich ardal. Bydd eich SCS yn eich helpu i ganfod pa hyfforddiant sydd ar gael yn eich ardal.

Efallai mai'ch cam nesaf fydd cwrs astudio gartref Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol i glercod newydd o'r enw *Cydweithio â'ch Cyngor*, a luniwyd gan Brifysgol Swydd Gaerloyw gyda gwybodaeth ategol i Gymru gan Brifysgol Cymru Aberystwyth. Gall y cwrs hwn gael ei gefnogi'n lleol gan fentor (un-i-un) neu gan hwylusydd sy'n cynnal grŵp. Mae Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol hefyd yn cynnal grwpiau e-drafod â thiwtor ar gyfer y cwrs hwn, un ar gyfer Cymru ac un arall ar gyfer Lloegr. Mae manylion ar gael gan swyddfa Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn Taunton (01823 253646) neu ar y wefan www.slcc.co.uk.

Grŵp o glercod yn cael eu cyflwyno i *Cydweithio â'ch Cyngor*

Mae'r *Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol* (CiLCA Cymru) yn gymhwyster yn hytrach nag yn gwrs hyfforddiant, er y bydd hyfforddiant ac arweiniad ar gael i helpu clercod i grynhoi eu portffolios ar gyfer eu hasesu pan fydd CiLCA Cymru ar gael.

Mae Prifysgol Swydd Gaerloyw wedi bod yn cydweithio â'r sector cynghorau lleol ers canol y 1980au ac yn darparu ystod o gyrsiau sy'n arwain at gymwysterau uwch ar gyfer clercod a phobl eraill sy'n gweithio i gynghorau lleol. Wedi i chi ennill cymhwyster CiLCA Cymru, efallai y

byddwch am ystyried y cam nesaf hwn; mae'n mynd i fwy o fanylder ac yn eich helpu i fagu mwy o hyder ar gyfer gweithio yn y sector.

Yn y cyfamser, cadwch lygad ar agor am hysbysebion ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau, cynadleddau a digwyddiadau eraill sydd wedi'u trefnu yn eich ardal ac mewn lleoliadau rhanbarthol neu genedlaethol hyd yn oed a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Yr hyn a ddywedodd clercod

Mae llawer o gyfleoedd hyfforddiant ar gael. Mae rhai clercod yn canfod bod eu cynghorau'n cefnogi hyfforddiant ac eraill yn llai cefnogol. Ymchwiliwch i'r hyn sydd ar gael gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Un Llais Cymru, eich awdurdod lleol a'ch coleg lleol – sy'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer sgiliau TG. Mae'n arfer da i'ch cyngor sicrhau bod arian ar gael yn y gyllideb i dalu costau hyfforddiant ar eich cyfer chi ac ar gyfer cynghorwyr.

Mae rhai clercod yn prynu *Cydweithio â'ch Cyngor* fel cyfeirlyfr am y chwe mis cyntaf ac yn llenwi'r ymatebion wedi iddynt ymgynefino â'r swydd. Mae rhai clercod yn ymuno â grŵp hyfforddiant a drefnwyd gan eich cangen o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol i weithio trwy *Cydweithio â'ch Cyngor*; mae rhai yn gweithio un-i-un gyda mentor. Mae'r cwrs yn hyblyg ac wedi'i lunio i fodloni eich anghenion.

Ffynonellau gwybodaeth

Gan fod deddfwriaeth ac arweiniad ar gyfer cynghorau cymuned yn newid yn gyson, mae'n hanfodol eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf trwy gyfeirio at eich dau gylchgrawn allweddol, *The Clerk* (Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol) ac *Y Llais* gan Un Llais Cymru. Gweler wefan Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac Un Llais Cymru, www.unllaiscymru.org.uk am fwy o fanylion.

Bydd o gymorth i chi gael yr argraffiad diweddaraf o *Practitioners' Guide (Wales)* sy'n cynnwys manylion am reolaeth ariannol, a gyhoeddwyd ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Un Llais Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyflenwyr archwilio allanol a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol – ei deitl llawn yw *Governance and Accountability: A Practitioners' Guide 2008 (Wales)*.

Beibl y clercod yw *Local Council Administration* gan Charles Arnold-Baker. Sicrhewch fod gan eich cyngor yr argraffiad diweddaraf. Gallwch gael cynnig da ar y llyfr hwn gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Mae angen y llyfryn *Standing Orders and Chairmanship* arnoch hefyd, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol ac sydd ar gael gan Un Llais Cymru. Mae'n rhoi arweiniad i gadeiryddion ac yn cynnwys rheolau sefydlog enghreifftiol (y gellir eu haddasu). Mae cyfres debyg o reoliadau ariannol (rheolau sefydlog) i'r cyngor ar gael hefyd.

Mae *Canllaw y Cynghorydd Da* yn llyfryn defnyddiol a ysgrifennwyd ar gyfer cynghorwyr, sy'n darparu cyflwyniad arall hawdd ei ddarllen i waith cyngor. Mae'n cynnwys rhestr

o lawer o'r pwerau sydd ar gael i gynghorau lleol. Mae copïau ar gael gan Un Llais Cymru neu Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (gweler y gwefannau).

Mae *Clerks' Manual* Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn cynnwys gwybodaeth debyg i *Local Council Administration* gan Charles Arnold-Baker, ond mae'n haws ei ddefnyddio ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae Nodiadau Cyngor Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn ddefnyddiol iawn a gellir eu lawrlwytho o wefan y Gymdeithas. Mae enghreifftiau o reoliadau ariannol, gweithdrefnau cwyno, contractau clercod a mwy ar gael hefyd. Nid oes angen ailddyfeisio'r olwyn. Os oes angen rhywbeth arnoch, gofynnwch.

Gellir prynu'r rhan fwyaf o gyfeirlyfrau o siop lyfrau Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.

Symud ymlaen yn raddol

Wrth i chi ddysgu mwy am y gwaith, efallai y byddwch yn canfod bod angen i chi newid arferion y cyngor. Rydym yn eich cynghori i wneud pethau'n raddol; ni allwch newid popeth ar unwaith a gallai hyn eich gwneud yn amhoblogaidd. Fodd bynnag, rhan o'ch gwaith yw sicrhau bod y cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon, felly gallai rhywfaint o bendantrwydd fod yn anochel wedi i chi ddarganfod y prif flaenoriaethau. Efallai y bydd angen mwy o arweiniad arnoch ar yr hyn sydd mor bwysig fel y dylid ei newid cyn hir. Rydym yn awgrymu eich bod yn gwneud rhestr o newidiadau yr ydych yn credu eich bod am eu gwneud a'u gwirio gydag arbenigwr, fel eich Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru neu ymgynghorwyr o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Rhowch flaenoriaeth i weithdrefnau anghyfreithlon a diwygiadau hawdd yn gyntaf ac yna edrychwch ar arfer gwael a'r tasgau anoddaf. Mae o gymorth os oes gennych gefnogaeth y cadeirydd, felly wedi i chi gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch, gallwch drafod hyn gyda'ch gilydd.

Yn y cyfamser, rydym yn siŵr y bydd y gwaith yn arbennig o ddiddorol o ran ei amrywiaeth. Cofiwch nad ydych ar eich pen eich hun. Mae llawer o bobl yn barod i'ch helpu. Yn y rhan nesaf, bydd llawer o glercod a oedd yn gweithio adeg ysgrifennu'r llyfryn hwn yn siarad gyda chi'n uniongyrchol am eu gwaith. Maent yn awgrymu'r hyn y bydden *nhw* wedi hoffi ei wybod pan oeddent yn eich sefyllfa chi, ar ddechrau'r daith fel clerc i gyngor lleol.

Clercod Cymru yn rhwydweithio ac yn mwynhau derbyniad nos yng Nghynhadledd Genedlaethol flynyddol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

9 CYNGOR TERFYNOL GAN GLERCOD

Gwybodaeth leol

Mae'n debyg y bydd eich cynghorwyr yn ddigon hapus i roi gwybodaeth leol i chi ond, os yn bosibl, cysylltwch â'r clerc blaenorol. Yn benodol, gofynnwch am:

- Restr o gysylltiadau yn eich prif awdurdod a'r hyn y maent yn ei wneud, a chysylltiadau allweddol eraill fel eich archwilydd mewnol;
- Calendr o dasgau a chyfarfodydd (yr hyn i'w wneud a phryd!);
- Eglurhad o sut mae'r system ffeilio yn gweithio;
- Cyfeiriadau i'r archifau a lle mae dogfennau pwysig yn cael eu cadw;
- Nodyn ar faterion lleol penodol y dylech fod yn ymwybodol ohonynt.

Rhai awgrymiadau ar gyfer y dyddiau cynnar

Gallai'r awgrymiadau hyn eich helpu yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf:

- Darllenwch gofnodion yr ychydig gyfarfodydd diwethaf er mwyn cael syniad o'r hyn sydd wedi digwydd yn ddiweddar.
- Dewch o hyd i reolau sefydlog y cyngor a cheisiwch ddod i arfer â nhw fel y gallwch gyfeirio atynt pan fydd y cyngor eu hangen.
- Edrychwch a oes gan y cyngor strategaeth a darllenwch hi.
- Peidiwch â bod yn ymosodol ond byddwch yn bendant! Chi yw ymgynghorydd cyfreithiol a swyddog priodol y cyngor ac mae gennych ddyletswydd i sicrhau bod eich cyngor yn gweithredu yn ôl y gyfraith. Unwaith eto, gwiriwch a ydych ar y trywydd iawn gyda'r Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru neu'ch SCS.
- Byddwch yn gyfeillgar gyda'r cynghorwyr ond cadwch bethau'n broffesiynol. Triniwch yr holl gynghorwyr yn gyfartal.
- Sicrhewch fod gennych ddigon o le i gadw'r holl bapur y byddwch yn ei dderbyn, yn enwedig os ydych yn gweithio gartref.
- Weithiau, mae'n well ffonio un o brif swyddogion y cyngor neu weithiwr proffesiynol arall cyn anfon llythyr, er mwyn rhwyddhau'r llwybr a chynnal perthynas dda. Mae hyn yn arbennig o wir os disgwylir i'r llythyr greu anawsterau e.e. un sy'n dechrau gyda "Mae fy nghyngor wedi penderfynu y dylwn ysgrifennu atoch…"
- Mae llinell ffôn ychwanegol gyda pheiriant ateb yn ddefnyddiol. Hyd yn oed os yw eich cyngor yn credu bod angen gwneud popeth ar frys, cofiwch y gall y rhan fwyaf o bethau aros. Nid ydych ar ddyletswydd trwy'r dydd a'r nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Mae hon yn swydd lle gallwch ddweud nad ydych yn gwybod y cwbl. Rydych yn parhau i ddysgu trwy gydol eich gyrfa. Mae hyn yn gwneud y gwaith o fod yn glerc mor ddiddorol!

I gloi, dyma rai atgofion trawiadol o adegau difyr yn gynnar yn y swydd:

- Dod o hyd i lyfrau claddu dan wely cynghorydd (does dim esboniad yma o beth oedd y clerc yn ei wneud yn ystafell wely'r cynghorydd).
- Dod o hyd i'r Chardonnay ar ôl cyfarfod anodd.
- Dod o hyd i gabinet ffeiliau'r cyngor (efallai mai dyna lle oedd y Chardonnay).

- Teimlo'n ddiamynedd gyda'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod. (Gallai myfyrio'n dawel ar y gwelliannau y gallwch eu cyflwyno helpu).
- Canfod bod gennych bartner gwirioneddol gydymdeimladol.

Pa bynnag droeon sy'n aros amdanoch, cofiwch nad ydych ar eich pen eich hun!

Mae Swyddog Mentora Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol wedi darparu deunyddiau ar gyfer y llyfryn hwn, gyda help a chymorth llawer o glercod a thîm ymgynghorol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Bydd Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a'i phartneriaid bob amser ar gael i gynnig cymorth. Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw gofyn.

Yr Ŵyl Pwnsh a Jwdi flynyddol a gefnogir ac a ariennir gan Gyngor Tref Aberystwyth

10 MYNEGAI

Adran 137 – gweler adnoddau am ddim
Agendau 14

Cod Ymddygiad 13,18, 28
Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 8
Cyfarfod Cymunedol Blynyddol 16
Cyfarfodydd 15
- Agenda – gweler agenda
- Cofnodion 17
- Cyfarfodydd Blynyddol - gweler dan blynyddol
- Hysbysu – gweler Hysbysiad cyfarfod 14
- Pwyllgorau 17

Cyfeirlyfrau a chylchgronau

Canllaw y Cynghorydd Da 11, 29
- Clerks' Manual 6, 27, 30
- *Local Council Administration (CAB)* 14, 29
- *Practitioners' Guide (Governance and Accountability: A Practitioners' Guide 2008) (Wales)* *20, 29*
- *Standing Orders and Chairmanship* 8, 14, 29
- *The Clerk* 6, 13, 29
- Y Llais 13, 29, 31

Cyllid
- Archebiant 11, 20
- Archwiliad Allanol 21, 22
- Archwiliad Mewnol 21, 22
- Cyfeirlyfr – gweler *Practitioners' Guide* 20
- Cyllideb 20, 21
- Grantiau 26
- Rheolaeth Fewnol 20
- Sicrwydd Cyfyngedig 22
- Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) 19

Cymdeithas Clercod Cynghorau Leol 6, 27, 29
- Gwasanaeth ymgynghorol 13

Cynllunio -

Ardaloedd cadwraeth ac ati 24

Barn gymunedol, datganiadau dylunio a chynlluniau cymunedol - gweler gweithredu cymunedol
Fframweithiau a chynlluniau datblygu 24, 25
Gorfodaeth 23
Materion perthnasol 24
Rôl y cyngor cymuned 23
Rheoli D atblygu 23, 24
Ymchwiliad cyhoeddus 23

Cynnwys 4, 5

Dirprwyo 13
Dirprwyo Cyfreithlondebau - gweler (Cyflawni dyletswyddau) - Dirprwyo uchod
Adnoddau am ddim (DLIL 1972 a137) 11,12
Dyletswyddau (gorfodol) 11, 12, 13
Pwerau (dewisol) 11

E-fforwm (ar gyfer clercod) 13

Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant 28
Gweithredu Cymunedol -
Cynlluniau Cymunedol 24, 25
Datganiadau D ylunio 25
Grantiau a phartneriaethau 26
Pleidlais Gymunedol 27
Ymgysylltu a'r gymuned 26, 27

Hyfforddiant –
Cydweithio a'ch Cyngor 28
Prifysgol Swydd Gaerloyw 28
Tystysgrif Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA) 28
Hysbysiad cyfarfod 14

Materion cyflogaeth
Arfarnu 9
Contract 9
Cyfrinachedd 9
Cyngor 9
Disgyblu a chwyno 9

Prif Gynghorau 10
Pwerau – gweler cyfreithlondebau

Rolau ac ati
Cadeirydd 8
Clerc 7
Cyngor 7
Cynghorwyr 7, 17

Swydd D disgrifiad 8
Swyddog Monitro 13, 28

Un Llais Cymru 5, 9

Y Fframwaith Moesegol - gweler y cod ymddygiad
Y Wasg a'r Cyhoedd 9, 25 26